Adroddiad i'r	Pwyllgor Safonau
Dyddiad y cyfarfod	16 Mehefin 2023
Swyddog / Aelod Arweiniol	Gary Williams, Swyddog Monitro
Awdur yr adroddiad	Lisa Jones, Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd
Teitl	Cod Ymddygiad Aelodau - trosolwg o'r hyfforddiant a gyflwynwyd.

1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

Mae'r Pwyllgor Safonau yn goruchwylio'r drefn foesegol o fewn y Sir ac mae hyfforddiant yn faes y mae'r Pwyllgor yn awyddus i sicrhau fod aelodau etholedig a chyfetholedig yn cymryd mantais ohono.

2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

I roi trosolwg o'r hyfforddiant a gyflwynwyd gan y Swyddog Monitro ers Mai 2022.

3. Beth yw'r Argymhellion?

Bod y Pwyllgor yn nodi cynnwys yr adroddiad.

4. Manylion yr adroddiad

4.1. Mae Atodiad 1 yn nodi'r dyddiadau, lleoliad a lefelau presenoldeb yn yr hyfforddiant a ddarparwyd gan y Swyddog Monitro a'i swyddfa.

4.2. Mewn perthynas â phresenoldeb Cynghorwyr Sir, fel nodwyd yn y Pwyllgor Safonau diwethaf roedd gan y Cyngor bresenoldeb o 100%. Fodd bynnag mae un Cynghorydd newydd y mae angen i ni gynnig hyfforddiant iddo, a etholwyd o ganlyniad i isetholiad.

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg This document is available in English.

4.3. Bydd y Pwyllgor yn sylwi, er gwaethaf cynnig nifer o gyfleoedd ar-lein a chymysgedd o leoliadau wyneb yn wyneb yng ngogledd, canol a de'r sir, yn ystod y dydd a gyda'r nos, gallai'r ymateb gan Gynghorau Tref a Chymuned fod yn llawer gwell.

4.4. Mae'r gallu i gyflwyno hyfforddiant ar y raddfa hon yn barhaus yn fwy na'r hyn sydd eisoes wedi ei ddarparu yn anodd ei gynnal ac mae'r Swyddog Monitro a'r Dirprwy yn awyddus i drafod opsiynau eraill gyda'r Pwyllgor megis darparu digwyddiad wedi ei recordio i bob Clerc i'w ddosbarthu gyda rhywfaint o Gwestiynau Cyffredin er enghraifft.

4.5. Efallai y bydd y Pwyllgor yn dymuno cyfeirio'r awgrym at y Fforwm Safonau Cenedlaethol ac i ystyried a allai hyn fod yn fenter genedlaethol er enghraifft.

5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

Nid yw'r adroddiad yn cael effaith uniongyrchol ar flaenoriaethau corfforaethol.

6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

Nid oes unrhyw gostau yn gysylltiedig â'r adroddiad hwn.

7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o Effaith ar Les?

Nid oes angen asesiad ar gyfer yr adroddiad hwn.

8. Pa ymgynghoriadau sydd wedi'u cynnal gyda Chraffu ac eraill?

Nid oes unrhyw ymgynghoriadau wedi eu cynnal mewn perthynas â'r adroddiad hwn.

9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

Fel y nodir yn adran 6.1, nid oes goblygiadau ariannol uniongyrchol i'r adroddiad hwn.

10. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

Nid oes unrhyw risgiau yn gysylltiedig â'r adroddiad hwn.

11. Pŵer i wneud y penderfyniad

Nid oes angen gwneud penderfyniad.